## ATODLEN 4

Rheoliad 16

### Y mesurau sy'n gymwys i ganolfannau storio CE

**1.** Yn ddarostyngedig i baragraff 2, rhaid i filfeddyg y ganolfan sicrhau—

(a) mai dim ond semen a gaiff ei storio yn y ganolfan;

(b) bod semen ond yn cael ei storio yn y ganolfan os nad yw wedi dod i gyffyrddiad ag unrhyw semen arall ac—

(i) ei fod wedi'i gasglu a'i brosesu mewn canolfannau casglu CE, neu mewn canolfannau a gymeradwywyd fel arall i gasglu semen o dan y Gyfarwyddeb; neu

(ii) ei fod, ar ôl cael ei gasglu a'i brosesu mewn canolfannau casglu CE neu mewn canolfannau a gymeradwywyd fel arall i gasglu semen o dan y Gyfarwyddeb, wedi'i storio mewn canolfannau storio CE neu mewn canolfannau a gymeradwywyd fel arall i storio semen o dan y Gyfarwyddeb;

(c) na fydd yr asiant cryogenig a ddefnyddir wedi'i ddefnyddio o'r blaen ar gyfer cynhyrchion eraill sy'n dod o anifeiliaid; ac

(ch) bod pob dogn semen unigol yn cael ei selio, ei rifo a'i farcio'n glir fel bod modd cadarnhau'r wybodaeth ganlynol yn rhwydd—

(i) y dyddiad y casglwyd y semen;

(ii) p'un oedd yr anifail buchol a roes y semen o dan y rheoliadau adnabod gwartheg;

(iii) brid yr anifail buchol a roes y semen; a

(iv) rhif trwydded y ganolfan lle cafodd y semen ei gasglu (os yw'n gymwys).

**2.** Er gwaethaf paragraff 1(a), caiff milfeddyg y ganolfan storio embryonau dwys-rewedig yn y ganolfan os yw—

(a) y storio hwnnw wedi'i awdurdodi gan Weinidogion Cymru;

(b) yr embryonau yn bodloni gofynion Cyfarwyddeb y Cyngor 89/556/EEC ar yr amodau iechyd anifeiliaid sy'n rheoli'r fasnach ryng-Gymunedol mewn embryonau anifeiliaid domestig o'r rhywogaeth fuchol a mewnforio embryonau o'r fath o drydydd gwledydd(**1**);

(c) y ganolfan yn cydymffurfio â rheoliadau 13, 14 a 15 o Reoliadau Embryonau Buchol (Eu Casglu, Eu Cynhyrchu a'u Trosglwyddo) 1995(**2**); ac

(ch) yr embryonau yn cael eu storio mewn cynwysyddion storio ar wahân i'r rhai sy'n cynnwys semen.

---

(**1**) O.J. Rhif L 302, 19.10.1989, t.1.
(**2**) O.S. 1995/2478, a ddiwygiwyd gan O.S. 1996/3124.